| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **2 MAWRTH 2020** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB – TRYDYDD CHWARTER 2019/20 - CYFALAF** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **MARC JONES (EST 2601)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **JEMMA ROBINSON**<br>**01248 752675**<br>**JemmaRobinson@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a'r Rheswm/Rhesymau**

- Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi cynnydd gwariant a derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2019/20 yn Chwarter 3.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb Gyfalaf ar gyfer trydydd chwarter y flwyddyn ariannol.
- Mae monitro'r gyllideb yn swyddogaeth a neilltuwyd i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Gosod y Gyllideb Gyfalaf flynyddol.

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 9 | **Aelodau Lleol** | |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A - Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf - Chwarter 3 2019/20
Atodiad B - Crynodeb o wariant Prosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant a Ragwelir ar Ddiwedd y Flwyddyn

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Gyfalaf 2019/20, fel yr argymhellwyd hi gan y Cyngor llawn ar 27 Chwefror 2019;
- Datganiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys 2019/20, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 27 Chwefror 2019;
- Adroddiad Alldro Cyfalaf 2018/19, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 17 Mehefin 2019;
- Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf 2019/20 - Chwarter 1, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 16 Medi 2019; ac
- Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf 2019/20 - Chwarter 2, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 25 Tachwedd 2019.

**ATODIAD A**

**MONITRO'R GYLLIDEB CYFALAF – CHWARTER 3 2019/20**

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Hwn yw'r adroddiad monitro'r gyllideb gyfalaf ar gyfer trydydd chwarter y flwyddyn ariannol, ac mae'n caniatáu i'r Aelodau nodi'r cynnydd o ran gwariant cyfalaf a derbyniadau cyfalaf yn erbyn y gyllideb gyfalaf.

**1.2** Ym mis Chwefror 2019, cymeradwyodd y Cyngor raglen gyfalaf o £17.282m yn 2019/20 ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn rhai tai a rhaglen gyfalaf o £13.110m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Yn ogystal, ym mis Mehefin 2019, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith lithriad o £3.065m i'w ddwyn ymlaen o 2018/19. Ers gosod y gyllideb, ychwanegwyd cynlluniau ychwanegol at y rhaglen, y mwyafrif ohonynt wedi'u cyllido gan grant ac sy'n dod i gyfanswm o £8.935m. Daw hyn â chyfanswm y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2019/20 i £42.392m.

## 2. CYNNYDD AR WARIANT YN 2019/20

**2.1** Isod mae tabl cryno yn dangos y gwariant cyfalaf hyd at 31 Rhagfyr 2019, y gyllideb a broffiliwyd hyd at 31 Rhagfyr 2019 ac mae'n nodi hefyd sut y bwriedir cyllido'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2019/20**.**

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Cyllideb a Broffiliwyd £'000 | Gwariant Gwirioneddol £'000 | Gwariant wedi ei Ymrwymo £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 | % y Gyllideb a Broffiliwyd sydd wedi ei gwario | % y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol Tai | 2,116 | 867 | 759 | 3 | 762 | 88 | 36 |
| CRT Tai | 14,117 | 10,588 | 7,473 | 219 | 7,692 | 73 | 54 |
| Dysgu Gydol Oes | 8,101 | 2,244 | 2,470 | 77 | 2,547 | 114 | 31 |
| Economaidd ac Adfywio | 5,998 | 1,876 | 929 | 231 | 1,161 | 62 | 19 |
| Priffyrdd | 8,330 | 4,972 | 4,253 | 122 | 4,375 | 88 | 53 |
| Rheoli Gwastraff | 180 | 180 | - | 180 | 180 | 100 | 100 |
| Eiddo | 1,129 | 517 | 525 | - | 525 | 102 | 47 |
| Trawsnewid | 629 | 472 | 213 | 33 | 246 | 52 | 39 |
| Cynllunio | 875 | 553 | 631 | 195 | 826 | 150 | 94 |
| Gwasanaethau Oedolion | 917 | 688 | 282 | 9 | 291 | 42 | 32 |
| **Cyfanswm** | **42,392** | **22,956** | **17,536** | **1,070** | **18,606** | **81** | **44** |

| | |
|---|---|
| **Cyllidwyd gan:** | |
| Grant Cyfalaf | 24,532 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 931 |
| Bethyca gyda Chefnogaeth | 5,973 |
| Benthyca Digefnogaeth | 544 |
| Cyfraniad Refeniw | 9,962 |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 211 |
| Benthyciad | 240 |
| **Cyfanswm Cyllido** | **42,392** |

**2.2** Hyd at ddiwedd y trydydd chwarter, gwariwyd 88% o'r gyllideb a broffiliwyd yn achos y gronfa gyffredinol, fodd bynnag, dim ond 39% o'r gyllideb flynyddol sydd wedi'i gwario hyd yma. Y rheswm am hyn yw bod y gwariant yn digwydd tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol mewn nifer o'r cynlluniau cyfalaf. Mae rhai cynlluniau cyfalaf wedi hen gychwyn, gyda'r rhan fwyaf o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer chwarter 3 wedi ei gwario, cynlluniau megis Buddsoddi i Arbed ar gerbydau, Grant Adnewyddu Priffyrdd, Grant Cyfalaf Diogelwch Ffyrdd, Maes Awyr Môn ac Isadeiledd Craidd TGCh. Nid yw rhai cynlluniau cyfalaf wedi cychwyn eto, ond mae eu cyllidebau wedi eu proffilio i wario tuag ddiwedd y flwyddyn ariannol, fel y gwaith ar yr ystafell ffitrwydd yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur a'r cae 3G newydd yng Nghanolfan David Hughes. Gellir gweld y cynlluniau hyn a'u proffiliau yn Atodiad B. Mae nifer o gynlluniau wedi'u cyllido trwy grantiau cyfalaf yn 2019/20 a rhoddir diweddariad ar y rhain yn Adran 3.1 o'r adroddiad hwn.

**2.3** Mae'r Cyfrif Refeniw Tai wedi gwario 73% o'r gyllideb a broffiliwyd, a 54% o'r gyllideb flynyddol. Ar hyn o bryd, amcangyfrifir y bydd yr holl gyllideb wedi'i hymrwymo ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Yn ystod chwarteri 1 a 2, bu'r gwariant yn bennaf mewn cysylltiad â chontractau a gaffaelwyd yn ystod 2018/19 h.y. ymrwymiadau a ddygwyd ymlaen. Yn ystod Ch3, dyfarnwyd dau gontract cynnal a chadw a gynlluniwyd mawr newydd ac maent wedi ymrwymo'r gyllideb yn llawn ar gyfer 2019/20. Yn ystod y chwarter, prynodd y Cyngor nifer o hen dai Cyngor yn ôl ac mae ar y trywydd iawn i ymrwymo'r gyllideb gyfan a neilltuwyd ar gyfer caffael eiddo a chodi tai newydd, er y dylid nodi y bydd yr holl gyllideb yn cael ei defnyddio yn 2019/20 ac y bydd gweddill y symiau a ymrwymwyd yn cael eu dwyn ymlaen i 2020/21.

## 3. CYLLIDO

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

**3.1.1** Mae nifer o gynlluniau Grant Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2019/20, ac mae'r mwyafrif ohonynt wedi cychwyn ac yn mynd rhagddynt. Rhoddir diweddariad byr ar y cynlluniau isod: -

- **Isadeiledd Strategol Llangefni** - Mae'r cynllun yn cynnwys adeiladu pum uned ddiwydiannol newydd ar hen safle Hyfforddiant Môn ac estyniad i'r Ganolfan Fusnes a fydd yn cael ei osod i'r sector preifat. Mae'r unedau diwydiannol newydd bellach wedi'u cwblhau, ac mae'r pump wedi'u gosod. Mae'r gwaith yn y Ganolfan Fusnes bellach wedi'i gwblhau ac mae'r gofod swyddfa yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd. Cyflwynwyd cais ailbroffilio i Swyddfa Cyllido Ewropeaidd Cymru a fydd yn caniatáu estyniad o 6 mis i'r prosiect a gwario'r cyllid sy'n weddill ar uwchraddio'r cladin a mân waith arall yn y ganolfan fusnes gyfredol. Disgwylir cadarnhad gan Swyddfa Cyllido Ewropeaidd Cymru yn fuan iawn.

- **Ysgolion yr 21ain Ganrif** - O'r Prosiectau Band A, mae ysgolion newydd yn Rhyd y Llan, Ysgol Cybi ac Ysgol Santes Dwynwen oll wedi'u cwblhau, ynghyd ag estyniad i Ysgol Parc y Bont a gwaith adnewyddu yn Ysgol Brynsiencyn. Mae'r cynllun Band A olaf, sy'n canolbwyntio ar y ddarpariaeth ysgol yn ardal Llangefni, yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.

- **Grant Cyfalaf ar gyfer Gofal Plant** - Sicrhawyd £2.718m o gyllid grant ar gyfer y cyfnod 2019 i 2021 i addasu nifer o ysgolion cynradd fel bod modd i'r Cyngor ddarparu digon o leoedd gofal plant i ateb y galw a gynhyrchir gan y cynnig gofal plant. Creuir cyfleusterau ychwanegol yn Ysgol Santes Dwynwen £0.400m, Ysgol Morswyn £0.413m, Ysgol Llandegfan £0.450m, Ysgol Pencarnisiog £0.340m, Ysgol Esceifiog £0.364m, Ysgol Henblas £0.370m, Ysgol y Tywyn £0.216m, yn ogystal â £0.165m i gyflawni Cynllun Grantiau Bach a Rheoli Prosiect. Mae'r gwaith wedi'i gwblhau yn Ysgol Santes Dwynwen, Ysgol Morswyn ac Ysgol Pencarnisiog. Mae tendrau wedi dod i law ar gyfer gwaith yn Ysgol Tywyn ac Ysgol Esceifiog a bydd yn cychwyn yn ystod mis Chwefror.

- **Neuadd y Farchnad** - Mae'r Llyfrgell bellach wedi agor ac yn weithredol. Mae'r gwaith cywiro mân-ddiffygion sy'n gysylltiedig â Rhan II y prif gontract bron wedi ei gwblhau ac mae'r contractwr yn rhoi sylw i'r diffygion a nodwyd. Daw'r cyfnod cywiro diffygion i ben ar 18 Gorffennaf 2020 (Ch2 2020/21), pan fydd y taliad cadw terfynol ar gyfer Rhan II yn ddyledus. Cynlluniwyd i wneud mân waith adfer y tu ôl i adeiladau pafiliwn Stryd Stanley ac i ddarparu raciau beiciau a storfa finiau ac mae'r gwaith hwnnw o fewn y cyfrif terfynol y cytunwyd arno. Gostyngwyd maint y cynigion dehongli treftadaeth i adlewyrchu'r cyllid sydd ar gael mewn cydweithrediad â Chronfa Dreftadaeth y Loteri, gyda'r tendr yn cael ei gwblhau a'i ryddhau yn Ch4.

- **Cynllun Lliniaru Llifogydd Biwmares** - Mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda ac o fewn y cyllidebau diwygiedig newydd ar hyn o bryd. Disgwylir cwblhau’r gwaith ddiwedd Mawrth 2020.

- **Isadeiledd Strategol Caergybi -** Cynllun yw hwn i adeiladu deg uned ddiwydiannol newydd ym Mhenrhos, Caergybi. Mae'r contractwr a benodwyd yn gwneud y gwaith ar hyn o bryd, a disgwylir iddo gael ei gwblhau yn ystod haf 2020. Sicrhawyd Cyllid Datblygu Rhanbarthol Ewrop a sefydlwyd Cyd-Fenter gyda Llywodraeth Cymru, sy'n darparu'r cyllid cyfatebol ar gyfer y cynllun.

- **Porth Twristiaeth** - Pecyn o brosiectau a gyllidir gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Llywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri yn bennaf yw Prosiect Porth Ymwelwyr Rhyngwladol Ynys Gybi (Cyrchfan Denu Twristiaeth) ac mae’n digwydd dros nifer o flynyddoedd. Mae’r gwaith gosod arwyddion yn y porthladd dan Ran 1 bellach wedi'i gwblhau. Mae'r dyluniadau ar gyfer Rhan 2 yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd. Mae'r fanyleb ar gyfer dymchwel yr adeilad sydd wedi mynd â’i ben iddo yn y Porthladd bellach wedi'i chwblhau a chyflynwyd y ceisiadau am ganiatâd i wneud y gwaith. Rhagwelir y bydd y gwaith dymchwel yn cael ei wneud ym mis Chwefror 2020. Ymgymerir ar hyn o bryd â’r broses ganiatáu ar gyfer prosiect gerllaw maes parcio Eglwys Sant Cybi a Sgwâr Swift.

- Mae cyllid wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y **Rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio** (TRIP). Pwrpas y cyllid yw dod â 108 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd trwy bedwar cynllun, sef Cymorth i Brynwyr Tro Cyntaf, Cymorth i Landlordiaid Cartrefi Gwag, Cynllun Ymyrraeth Uniongyrchol ynghylch Cartrefi Gwag a Chynllun Byw yng Nghanol Tref. Cyflawnir y cynlluniau hyn gan Gyngor Sir Ynys Môn, fel yr awdurdod arweiniol, a Chyngor Gwynedd, fel ei bartner cyflawni ar y cyd. Bydd cyfanswm o £3.250m ar gael, gyda chyfran Ynys Môn yn £1.8m dros dair blynedd. Yn 2019/20, y gyllideb ar gyfer Ynys Môn yw £0.751m. Hyd ddiwedd chwarter 3, gwariwyd cyfanswm o £1.32m ar draws Ynys Môn a Gwynedd.

- **Maes Awyr Môn** - Sicrhawyd £0.360m o gyllid grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith cyfalaf ym Maes Awyr Môn, sy'n cynnwys addasiadau i'r derfynfa bresennol. Mae'r gwaith bellach wedi'i gwblhau.

- **Cynllun Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth** - Mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo cyllid ar gyfer cynllun Lliniaru Llifogydd yn Nant y Felin, Pentraeth yn ei rhaglen ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20. Mae'r cynllun hwn bellach ar y safle ond mae’r gwaith daear wedi datgelu materion nad oedd modd eu rhagweld yno. Mae’r dyluniadau'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd a bydd y costau’n uwch. Mae'r cynllun yn debygol o gostio oddeutu £500k. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno’n amodol i gyllido swm uwch o 85% (£425k), ac mae'r Cyngor yn cynnig defnyddio'r £50k a neilltuwyd eisoes a dod o hyd i'r gweddill o refeniw. Bydd y cynllun hwn nawr yn rhedeg dros ddwy flynedd ariannol.

- **Cyfalaf Diogelwch Ffyrdd** - Bydd y cynllun hwn yn cynnwys gwaith cyfalaf ar ffordd yr A4080 o Lanfairpwll i Aberffraw. Mae'r gwaith wedi cychwyn a’r gyllideb ar gyfer y cynllun yw £0.231m.

- **Teithio Llesol** – Dan y cynllun Teithio Llesol mae cyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru i wneud mân welliannau i isadeiledd, gan gynnwys gosod arwyddion, cyfleusterau parcio beiciau, cael gwared ar rwystrau mynediad a lledu llwybrau. Pwrpas y grant yw cynyddu lefelau teithio llesol, gwella iechyd a lles, lleihau allyriadau carbon a gwella teithio llesol i fannau cyflogaeth, addysg a gwasanaethau allweddol, cyrchfannau a thrafnidiaeth gyhoeddus. Yn ystod Chwarter 3, sicrhawyd £320,500 ychwanegol gan ddod â chyfanswm y grant i £478,500. Defnyddir y cyllid ychwanegol i osod Croesfan Pelican yn Ysgol Kingsland yng Nghaergybi, uwchraddio’r llwybr troed sy’n cysylltu â Stryd Fawr Benllech, uwchraddio'r llwybr troed a’r llwybr beicio ar y ffordd ym Mhorthaethwy, prynu tir ar gyfer llwybr troed a llwybr beicio ar wahân ar Ffordd Gyswllt Llangefni a dylunio ac adeiladu llwybr amlddefnydd ym Maes Awyr Môn a Llu Awyr Brenhinol y Fali. Ymgymerir â’r gwaith yn Chwarter 4.

- **Partneriaeth Tirwedd Ynys Gybi** - Mae'r Bartneriaeth Tirwedd wedi sicrhau cyllid o £1.146m gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (NLHF) i gyflawni ystod o brosiectau sy'n canolbwyntio ar amgylchedd naturiol Ynys Gybi. Roedd disgwyl cael caniatâd gan NLHF i ddechrau gwaith ar y prosiectau yn Chwarter 3 ond bu peth oedi yn dilyn cais am estyniad 6 mis i gyllid Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop sy'n cael ei ddefnyddio fel cyllid cyfatebol ar gyfer y Bartneriaeth Tirwedd. Caniatawyd yr estyniad erbyn hyn ac rydym yn bwriadu cael 'caniatâd i ddechrau' yn Chwarter 4 gyda golwg ar ddechrau cyflawni'r prosiect yn Chwarter 1 2020/21.

- **Trawsnewid Treflun Caergybi** - Cafwyd 'caniatâd i ddechrau' gan y Loteri Treftadaeth ym mis Rhagfyr 2019, a oedd yn golygu y gallai'r prosiect gychwyn yn ffurfiol. Mae'r ffocws cychwynnol wedi bod ar hyrwyddo cynigion gwella a nodwyd ar gyfer safle Sant Cybi a'r maes parcio cyfagos. Bydd yr elfennau cynnar yn adeiladu ar waith clirio llystyfiant a wnaed yn Chwarter 4 (2018/19) a dylai ddechrau cyflawni yn Chwarter 4 (2020/21), gan ganolbwyntio ar fynedfa fwaog Ffordd Victoria. Bydd trafodaethau gyda phrosiectau grant 3ydd parti posib yn cychwyn unwaith y bydd swydd Swyddog Prosiect yn cael ei hysbysebu yn Chwarter 4.

- **Grant Ysgogiad Economaidd** – Dyfarnwyd £0.491m o gyllid grant i'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru i'w fuddsoddi mewn cynlluniau cyfalaf i yrru newidiadau pwysig yn y cymunedau, sy'n darparu budd economaidd a chynlluniau sy'n cael effeithiau cadarnhaol ar fioamrywiaeth a'r amgylchedd. Mae cyllid yn cael ei ddefnyddio i adeiladu ffordd a chynnal arolygon archeolegol ar Safle Porth Bryn Cefni yn Llangefni. Bydd hyn yn arwain at ddatblygu saith plot datblygu ar wahân a fydd yn cael eu gwerthu i'r sector preifat. Gwneir cais am gyllid pellach o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop i ddatblygu pum uned fusnes ar Blot 1 y safle hwn.

**3.1.2** Mae yna gynllun yn y Rhaglen Gyfalaf sydd heb ddechrau eto a rhoddir diweddariad arno isod:-

- **Cynllun Grant Hwb ar gyfer Isadeiledd mewn Ysgolion** – Dyranwyd £1.303m i'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod rhwydweithiau TGCh ysgolion yn ddigonol i gefnogi dysgu digidol. Rhaid hawlio a gwario'r grant hwn erbyn diwedd mis Mawrth 2020 a bydd y gwaith yn dechrau yn ystod Chwarter 4. Rhennir y grant yn ddwy elfen - cyfran ar gyfer costau lleol i drefnu'r prosiect, a'r gweddill yn cael ei gadw gan Lywodraeth Cymru i'w wario fel credyd yn erbyn catalog cenedlaethol. Y rhaniad cychwynnol oedd 85% catalog a 15% costau. Ers hynny, mae'r Cyngor wedi gofyn i newid hynny i 78.5% catalog a 21.5% costau yn sgil nodi bod angen gwneud gwaith gosod ceblau yn yr ysgolion. Cyflwynwyd archeb catalog o £900k yn Chwarter 4, gyda'r cyllid sy'n weddill yn cael ei wario yn y chwarter nesaf.

## 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Y Derbyniadau Cyfalaf ar gyfer eleni hyd yma a'r Derbyniadau Cyfalaf y cyllidebwyd ar eu cyfer yw:-

| | Cyllideb 2019/20 £'000 | Derbyniwyd hyd at 31 Rhagfyr 2019 £'000 | Rhagwelwyd hyd at 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cronfa'r Cyngor:** | | | |
| Mân-ddaliadau | 0 | 0 | 0 |
| Cyffredinol | 699 | 926 | 926 |
| Diwydiannol | 0 | 100 | 100 |
| Ysgolion | 873 | 171 | 171 |
| **Cyfanswm** | **1,572** | **1,197** | **1,197** |

**3.2.2** Y Derbyniadau Cyfalaf a ragwelwyd erbyn 31 Mawrth 2020 yw £1.197m a derbyniwyd £1.197m erbyn 31 Rhagfyr 2019 (100%), sy'n cynnwys gwerthu hen ysgol (£0.171m), plot mewn Parc Diwydiannol (£0.100m), Neuadd y Sir yn Llangefni (£0.189m) a thir ger Hen Ysgol Y Graig (£0.599m).

**3.2.3** Er bod y Derbyniadau Cyfalaf y cyllidebwyd amdanynt yn £1.572m, mae £2.758m o Dderbyniadau Cyfalaf ar gael i gyllido'r Rhaglen Gyfalaf oherwydd bod £1.186m o Dderbyniadau Cyfalaf wedi eu dwyn ymlaen o 2018/19 yn y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn. Gellir defnyddio £1.885m o'r cyfanswm i gyllido'r ariannu'r rhaglen gyfalaf gyffredinol, gyda'r £0.873m sy'n weddill ar gael i gyllido'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif fel rhan o gyllid cyfatebol Cyngor Sir Ynys Môn.

## 4. Y GWARIANT GWIRIONEDDOL A RAGWELIR YN 2019/20

**4.1** Gweler isod dabl yn dangos y gwariant a ragwelir erbyn 31 Mawrth 2020 a'r cyllid diwygiedig:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Gwariant a Ragamcenir £'000 | Tan / Gor Wariant a Ragamcenir £'000 | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Tai Gyffredinol | 2,116 | 1,340 | - 775 | - 37 |
| CRT Tai | 14,117 | 11,000 | - 3,117 | - 22 |
| Dysgu Gydol Oes | 8,101 | 3,002 | - 5,099 | - 63 |
| Economaidd ac Adfywio | 5,998 | 2,711 | - 3,288 | - 55 |
| Priffyrdd | 8,330 | 7,686 | - 645 | - 8 |
| Rheoli Gwastraff | 180 | 180 | 0 | 0 |
| Eiddo | 1,129 | 991 | - 138 | - 12 |
| Trawsnewid | 629 | 362 | - 267 | - 42 |
| Cynllunio | 875 | 868 | - 7 | - 1 |
| Gwasanaethau Oedolion | 917 | 760 | - 157 | - 17 |
| **Cyfanswm** | **42,392** | **28,900** | **- 13,492** | **- 32** |
| **Cyllidwyd gan:** | **Cyllideb Flynyddol £'000** | **Cyllid a Ragamcenir £'000** | **Amrywiad £'000** | **% Amrywiad** |
| Grant Cyfalaf | 24,532 | 17,111 | - 7,421 | - 30 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 931 | 941 | 10 | 1 |
| Benthyca gyda Chefnogaeth | 5,973 | 3,161 | - 2,812 | - 47 |
| Benthyca Digefnogaeth | 544 | 496 | - 47 | - 9 |
| Cyfraniad Refeniw | 9,962 | 6,845 | - 3,117 | - 31 |
| Cronfeydd wrth Gefn | 211 | 106 | - 105 | - 50 |
| Benthyciad | 240 | 240 | - | - |
| **Cyfanswm Cyllid** | **42,392** | **28,900** | **- 13,492** | **- 32** |

**4.2** Fel y gwelir yn nhabl 4.1 (uchod), y tanwariant a ragwelir ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2019/20 yw £13.492m, a gallai'r swm hwn lithro i Raglen Gyfalaf 2020/21. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2020/21, ac fe'i cymerir i ystyriaeth wrth gynhyrchu'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2020/21. Y prif brosiectau y rhagwelir y byddant yn tanwario yw Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, sydd wedi ei ohirio am y tro ac sy'n dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad pellach ar foderneiddio'r ddarpariaeth ysgolion yn ardal Llangefni. Fodd bynnag, os mai canlyniad yr ymgynghoriad a'r penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith yw parhau i fwrw ymlaen gyda'r ysgolion newydd yn ardal Llangefni, gallai'r tanwariant a ragwelir ostwng, yn dibynnu pryd y bydd y gwaith yn cychwyn. Hefyd, mae'n debygol y bydd tanwariant o £1.999m ar Gynllun Isadeiledd Strategol Caergybi ac ni fydd y Cynllun Amddiffyn Rhag Llifogydd yn Nhraeth Coch yn mynd yn ei flaen yn y flwyddyn ariannol hon 'chwaith, gan arwain at danwariant o £0.638m. Ymddengys y bydd tanwariant o £0.450m yng nghynllun cyfalaf y Grant Cyfleusterau i'r Anabl hefyd oherwydd ei fod yn wasanaeth sy'n cael ei arwain gan y galw ac mae nifer yr ymholiadau wedi gostwng. Hefyd, efallai na fydd rhai o'r cleientiaid a gyfeirir yn gymwys i gael Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn ôl y polisi. Ni fydd y £0.450m hwn yn cael ei drosglwyddo i 2020/21 fel llithriad, oherwydd bod cais Cyfalaf newydd yn cael ei gyflwyno am ddyraniad ariannol newydd a ddyfernir yn 2020/21.

**4.3** Y Gofyniad Cyllid Cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2020 yw £139.258m, sef yr angen sylfaenol i'r Awdurdod fenthyca i allu ariannu ei Raglen Gyfalaf. Ar hyn o bryd, cymerwyd fenthyciad allanol o £128.799m, sy'n golygu bod angen i'r Awdurdod gael benthyg £10.459m i gyllido'rariannu'r Rhaglen Gyfalaf gyfredol. Os cymerir benthyciad allanol, bydd yr Awdurdod yn dal i fod o fewn ei derfynau benthyca awdurdodedig yn unol â'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2019/20 (Atodiad 11).

## 5. BLYNYDDOEDD Y DYFODOL

**5.1** Roedd y Strategaeth Gyfalaf yn argymell cyfyngu cyllido'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2019/20 i gyfanswm y grant cyfalaf cyffredinol a benthyca gyda chefnogaeth (fel y penderfynir gan Lywodraeth Cymru) ac amcangyfrif o werth unrhyw dderbyniadau cyfalaf a geir. Disgwylir y bydd Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2020/21 yn dilyn yr un egwyddorion, gyda'r Grant Cyfalaf Cyffredinol a'r Benthyca gyda Chefnogaeth yn cael eu defnyddio i dalu am gerbydau newydd yn flynyddol, buddsoddi mewn TGCh, adnewyddu asedau cyfredol a dyraniad blynyddol i dalu am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, sy'n grant statudol. Bydd cyllid ar gael hefyd ar gyfer ailwynebu ffyrdd ac ar gyfer prosiectau cyfalaf sy'n denu grantiau allanol, a bydd y rhain yn cael eu gwerthuso fesul achos.

Ar ôl i'r prosiectau uchod gael eu cyllido, efallai y bydd rhywfaint o gyllid ar gael i gyllido cynlluniau cyfalaf newydd, gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i brosiectau sy'n cyfrannu at amcanion y Cyngor fel y nodir nhw yng Nghynllun y Cyngor am y cyfnod 2017-2022 ac unrhyw gynlluniau a all gynhyrchu arbedion refeniw yn y dyfodol neu incwm ychwanegol.

Cyflwynwyd y Gyllideb Gyfalaf ddrafft i'r Pwyllgor hwn ar 13 Ionawr 2020 ac fe'i cyflwynir hefyd i'r Cyngor llawn i'w chymeradwyo yn y dyfodol agos. Cyflwynir y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2020/21 i'r Pwyllgor hwn hefyd ar 2 Mawrth 2020.

## 6. CASGLIAD

**6.1** Mae'r canlyniadau ar ddiwedd Chwarter 3 a'r gwariant cysylltiedig a ragwelir yn dangos bod mwyafrif y prosiectau ar darged i'w cwblhau o fewn y gyllideb. Oherwydd bod Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif wedi ei gohirio am y tro ac yn dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad pellach ar foderneiddio'r ddarpariaeth ysgol, mae perygl o danwariant sylweddol yn erbyn y prosiect hwn. Mae'r Cyngor wedi llwyddo i sicrhau llawer o wahanol grantiau allanol ac mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar y rhan fwyaf o'r cynlluniau hyn. Mae'r Cyngor hefyd yn disgwyl derbyn £1.2m o Dderbyniadau Cyfalaf yn 2019/20 i gyfrannu tuag at gyllido'r Rhaglen Gyfalaf.

**ATODIAD B**

## Crynodeb o Wariant Prosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant a ragwelir erbyn diwedd y flwyddyn

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | % o'r Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd | % o'r Gyllideb Flynyddol a Wariwyd | Gwariant a Ragamcenir (£) | Tan / Gorwariant a Ragamcenir (£) | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Dai Gyffredinol** | | | | | | | | | | | |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 900,000 | 337,500 | 266,773 | 0 | 266,773 | -70,727 | 79 | 30 | 450,000 | -450,000 | -50 |
| Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | 779,000 | 225,000 | 72,743 | 194 | 72,937 | -152,063 | 32 | 9 | 300,000 | -479,000 | -61 |
| Cynllun Prynu Gorfodol | 22,740 | 17,055 | 174,312 | 3,019 | 177,331 | 160,276 | 1,040 | 780 | 220,000 | 197,260 | 867 |
| Grant Enable | 93,200 | 69,900 | 32,833 | 0 | 32,833 | -37,067 | 47 | 35 | 93,200 | 0 | 0 |
| Grant TRIP Prynwr tro cyntaf | 200,000 | 150,000 | 186,296 | 0 | 186,296 | 36,296 | 124 | 93 | 200,000 | 0 | 0 |
| Grant TRIP Cynllun Landlord | 90,000 | 67,500 | 26,083 | 0 | 26,083 | -41,418 | 39 | 29 | 77,000 | -13,000 | -14 |
| Tai fforddiadwy | 30,650 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -30,650 | -100 |
| **Cyfanswm: Cronfa Dai Gyffredinol** | **2,115,590** | **866,955** | **759,039** | **3,213** | **762,252** | **-104,703** | **88** | **36** | **1,340,200** | **-775,390** | **-37** |
| **CRT Tai** | | | | | | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 400,000 | 300,000 | 181,674 | 20,089 | 201,763 | -98,237 | 67 | 50 | 400,000 | 0 | 0 |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 4,850,000 | 3,637,500 | 2,155,791 | 9,221 | 2,165,013 | -1,472,487 | 60 | 45 | 3,250,000 | -1,600,000 | -33 |
| Gwella Perfformiad Ynni | 400,000 | 300,000 | 9,658 | 675 | 10,333 | -289,667 | 3 | 3 | 150,000 | -250,000 | -63 |
| Gwaith Amgylcheddol | 450,000 | 337,500 | 135,732 | 2,092 | 137,824 | -199,676 | 41 | 31 | 250,000 | -200,000 | -44 |
| Prynu Eiddo Presennol a datblygu eiddo newydd | 6,371,000 | 4,778,250 | 3,406,693 | 1,080 | 3,407,773 | -1,370,477 | 71 | 53 | 4,500,000 | -1,871,000 | -29 |
| Ailfodelu Llawr Y Dref | 16,000 | 12,000 | 64,767 | 610 | 65,377 | 53,377 | 545 | 409 | 70,000 | 54,000 | 338 |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 350,000 | 262,500 | 255,973 | 11,677 | 267,650 | 5,150 | 102 | 76 | 350,000 | 0 | 0 |
| Risg Tân | 200,000 | 150,000 | 0 | 31,900 | 31,900 | -118,100 | 21 | 16 | 200,000 | 0 | 0 |
| Tir Halogedig | 330,000 | 247,500 | 319,240 | 3,260 | 322,500 | 75,000 | 130 | 98 | 330,000 | 0 | 0 |
| SATC | 750,000 | 562,500 | 790,901 | 138,150 | 929,050 | 366,550 | 165 | 124 | 1,200,000 | 450,000 | 60 |
| Offer UCT | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 100,000 | 100,000 | 0 |
| Modiwl gweithio symudol | 0 | 0 | 153,000 | 0 | 153,000 | 153,000 | 0 | 0 | 200,000 | 200,000 | 0 |
| **Cyfanswm: CRT Tai** | **14,117,000** | **10,587,750** | **7,473,429** | **218,754** | **7,692,183** | **-2,895,567** | **73** | **54** | **11,000,000** | **-3,117,000** | **-22** |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | | | | | |
| Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysgol | 300,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 147,000 | -153,000 | -51 |
| Adnewyddu Adeiliadau Addysg | 1,470,000 | 1,102,500 | 1,322,280 | 0 | 1,322,280 | 219,780 | 120 | 90 | 1,470,000 | 0 | 0 |
| Diogelwch Ysgolion | 200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -200,000 | -100 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Moderneiddio Band A | 4,360,500 | 166,742 | 226,931 | 40,857 | 267,788 | 101,046 | 161 | 6 | 414,908 | -3,945,592 | -90 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Moderneiddio Band B | 500,000 | 18,219 | 0 | 11,450 | 11,450 | -6,769 | 63 | 2 | 24,292 | -475,708 | -95 |
| Grant Cyfalaf Dechra'n Deg | 14,500 | 14,500 | 14,015 | 0 | 14,015 | -485 | 97 | 97 | 14,015 | -485 | -3 |
| Cynyddu'r capasiti ar gyfer grant cyfalaf gofal plant | 1,255,985 | 941,989 | 906,409 | 25,187 | 931,596 | -10,393 | 99 | 74 | 931,596 | -324,389 | -26 |
| **Cyfanswm: Dsygu Gydol Oes** | **8,100,985** | **2,243,950** | **2,469,635** | **77,494** | **2,547,129** | **303,179** | **114** | **31** | **3,001,811** | **-5,099,174** | **-63** |
| **Economaidd ac Adfywio** | | | | | | | | | | | |
| Gwaith a'r gyfer Ystaffell Ffitrwydd Plas Arthur | 130,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 130,000 | 0 | 0 |
| Cae Chwarae 3G 7 pob ochr David Hughes | 80,000 | 0 | 5,715 | 0 | 5,715 | 5,715 | 0 | 7 | 80,000 | 0 | 0 |
| Porth Twristiaeth | 1,280,000 | 208,124 | 38,116 | 59,383 | 97,499 | -110,625 | 47 | 8 | 277,499 | -1,002,501 | -78 |
| Isadeiledd Strategol Caergybi | 3,499,000 | 1,125,000 | 770,679 | 0 | 770,679 | -354,321 | 69 | 22 | 1,500,000 | -1,999,000 | -57 |
| Isadeiledd Strategol Llangefni | 306,000 | 37,500 | 16,718 | 25,759 | 42,478 | 4,978 | 113 | 14 | 50,000 | -256,000 | -84 |
| Buddsoddi i Arbed - System Gynllunio | 57,000 | 42,750 | 37,659 | 0 | 37,659 | -5,091 | 88 | 66 | 57,000 | 0 | 0 |
| Datblygu Economiadd - I Geisio Cyllid Cyfatebol | 95,000 | 48,638 | 6,900 | 3,950 | 10,850 | -37,788 | 22 | 11 | 64,850 | -30,150 | -32 |
| Stimwlws Cyfalaf Economaidd | 491,330 | 368,498 | 43,795 | 99,396 | 143,191 | -225,307 | 39 | 29 | 491,330 | 0 | 0 |
| Datblygu Safle Ysgol TRIP | 60,000 | 45,000 | 9,791 | 42,987 | 52,778 | 7,778 | 117 | 88 | 60,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm: Economaidd ac Adfywio** | **5,998,330** | **1,875,509** | **929,373** | **231,474** | **1,160,847** | **-714,662** | **62** | **19** | **2,710,679** | **-3,287,651** | **-55** |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | % o'r Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd | % o'r Gyllideb Flynyddol a Wariwyd | Gwariant a Ragamcenir (£) | Tan / Gorwariant a Ragamcenir (£) | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | | | | | | | | | | | |
| Uwchraddio Peiriannau Talu ac Arddangos Mewn Meysydd Parcio | 30,000 | 22,500 | 0 | 14,906 | 14,906 | -7,594 | 66 | 50 | 30,000 | 0 | 0 |
| Cerbydau | 216,960 | 162,720 | 66,362 | 71,490 | 137,852 | -24,868 | 85 | 64 | 210,150 | -6,810 | -3 |
| Ailwynebu Priffyrdd | 1,359,000 | 1,019,250 | 679,149 | 0 | 679,149 | -340,101 | 67 | 50 | 985,398 | -373,602 | -27 |
| Grant Adnewyddu Priffyrdd | 602,180 | 451,635 | 975,782 | 0 | 975,782 | 524,147 | 216 | 162 | 975,782 | 373,602 | 62 |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Miwmares (LlC) | 2,310,000 | 1,732,500 | 1,621,112 | 800 | 1,621,912 | -110,588 | 94 | 70 | 2,310,000 | 0 | 0 |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth (LlC) | 333,000 | 10,000 | 8,381 | 0 | 8,381 | -1,619 | 84 | 3 | 333,000 | 0 | 0 |
| Lliniaru Llifogydd yn Llansadwrn | 180,000 | 1,000 | 802 | 0 | 802 | -198 | 80 | 0 | 180,000 | 0 | 0 |
| Buddsoddi i Arbed - Cerbydau | 150,000 | 112,500 | 77,020 | 0 | 77,020 | -35,480 | 68 | 51 | 150,000 | 0 | 0 |
| Cyllid Cyfatebol ar gyfer Gwaith Draenio | 200,000 | 150,000 | 111,627 | 0 | 111,627 | -38,373 | 74 | 56 | 200,000 | 0 | 0 |
| Astudiaethau Draenio a Gwaith Dylunio | 166,000 | 10,000 | 9,896 | 0 | 9,896 | -104 | 99 | 6 | 166,000 | 0 | 0 |
| Amddiffyn rhag Llifogydd Traeth Coch | 638,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -638,000 | -100 |
| Lôn Gyswllt Llangefni | 97,000 | 72,750 | 31,433 | 0 | 31,433 | -41,317 | 43 | 32 | 97,000 | 0 | 0 |
| Teithio Llesol | 478,500 | 50,000 | 40,762 | 0 | 40,762 | -9,238 | 82 | 9 | 478,500 | 0 | 0 |
| A545 Biwmares | 68,800 | 51,600 | 24,757 | 0 | 24,757 | -26,843 | 48 | 36 | 68,800 | 0 | 0 |
| Cyfalaf Diogelu'r Ffyrdd | 231,000 | 173,250 | 190,010 | 0 | 190,010 | 16,760 | 110 | 82 | 231,000 | 0 | 0 |
| Parcio a theithio yng Ngaerwen | 600,000 | 450,000 | 100,799 | 0 | 100,799 | -349,201 | 22 | 17 | 600,000 | 0 | 0 |
| Maes Awyr Môn | 360,000 | 270,000 | 302,644 | 0 | 302,644 | 32,644 | 112 | 84 | 360,000 | 0 | 0 |
| Hyb Porth Caergybi | 306,000 | 229,500 | 8,980 | 34,319 | 43,299 | -186,201 | 19 | 14 | 306,000 | 0 | 0 |
| Salix Rhan 3 - Goleuadau Stryd | 4,000 | 3,000 | 3,564 | 0 | 3,564 | 564 | 119 | 89 | 4,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm: Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | **8,330,440** | **4,972,205** | **4,253,080** | **121,515** | **4,374,595** | **-597,610** | **88** | **53** | **7,685,630** | **-644,810** | **-8** |
| **Rheoli Gwastraff** | | | | | | | | | | | |
| Prynu Rhaw Lwytho Newydd | 180,000 | 180,000 | 0 | 180,250 | 180,250 | 250 | 100 | 100 | 180,250 | 250 | 0 |
| **Cyfanswm: Rheoli Gwastraff** | **180,000** | **180,000** | **0** | **180,250** | **180,250** | **250** | **100** | **100** | **180,250** | **250** | **0** |
| **Eiddo** | | | | | | | | | | | |
| Glanllyn, Llanedwen | 21,000 | 15,750 | 6,592 | 0 | 6,592 | -9,158 | 42 | 31 | 21,000 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Asedau Cyfredol | 572,540 | 100,000 | 83,569 | 0 | 83,569 | -16,431 | 84 | 15 | 435,000 | -137,540 | -24 |
| Eiddo - Buddsoddi i Arbed | 510,000 | 382,500 | 410,132 | 0 | 410,132 | 27,632 | 107 | 80 | 510,000 | 0 | 0 |
| Neuadd y Sir | 25,000 | 18,750 | 24,617 | 0 | 24,617 | 5,867 | 131 | 98 | 25,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm: Eiddo** | **1,128,540** | **517,000** | **524,909** | **0** | **524,909** | **7,909** | **102** | **47** | **991,000** | **-137,540** | **-12** |
| **Trawsnewid** | | | | | | | | | | | |
| TGCh - Isadeiledd Craidd | 171,000 | 128,250 | 127,883 | 31,984 | 159,867 | 31,617 | 125 | 93 | 171,000 | 0 | 0 |
| TGCh - Adnewyddu Cyfrifiaduron | 121,000 | 90,750 | 70,518 | 0 | 70,518 | -20,232 | 78 | 58 | 121,000 | 0 | 0 |
| TGCh - Mudo System Etifeddiaeth | 20,000 | 15,000 | 0 | 0 | 0 | -15,000 | 0 | 0 | 0 | -20,000 | -100 |
| TGCh - Trwyddedu MS | 127,000 | 95,250 | 15,000 | 0 | 15,000 | -80,250 | 16 | 12 | 25,000 | -102,000 | -80 |
| TGCh - Cysylltu Môn i drosglwyddo PSBA | 60,000 | 45,000 | 0 | 1,000 | 1,000 | -44,000 | 2 | 2 | 20,000 | -40,000 | -67 |
| TGCh - Uwchraddio Ystafelloedd Gyfarfod | 25,000 | 18,750 | 0 | 0 | 0 | -18,750 | 0 | 0 | 25,000 | 0 | 0 |
| System CRM - Buddsoddi i Arbed | 105,000 | 78,750 | 0 | 0 | 0 | -78,750 | 0 | 0 | 0 | -105,000 | -100 |
| **Cyfanswm: Trawsnewid** | **629,000** | **471,750** | **213,401** | **32,984** | **246,385** | **-225,365** | **52** | **39** | **362,000** | **-267,000** | **-42** |
| **Cynllunio** | | | | | | | | | | | |
| Prosiect Hyb Neuadd y Farchnad, Caergybi | 825,000 | 515,000 | 610,548 | 187,675 | 798,223 | 283,223 | 155 | 97 | 828,223 | 3,223 | 0 |
| Trawsnewid Treflun Caergybi | 50,000 | 37,500 | 20,365 | 7,608 | 27,972 | -9,528 | 75 | 56 | 40,000 | -10,000 | -20 |
| **Cyfanswm: Cynllunio** | **875,000** | **552,500** | **630,912** | **195,283** | **826,195** | **273,695** | **150** | **94** | **868,223** | **-6,777** | **-1** |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | | | | | | |
| ICF | 773,770 | 580,328 | 281,790 | 0 | 281,790 | -298,537 | 49 | 36 | 616,666 | -157,104 | -20 |
| Hyb cymunedol Bryn Hwfa | 23,500 | 17,625 | 0 | 9,047 | 9,047 | -8,578 | 51 | 38 | 23,500 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Plas Crigyll | 85,000 | 63,750 | 65 | 0 | 65 | -63,685 | 0 | 0 | 85,000 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Plas Mona | 35,000 | 26,250 | 0 | 0 | 0 | -26,250 | 0 | 0 | 35,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm: Gwasanaethau Oedolion** | **917,270** | **687,953** | **281,855** | **9,047** | **290,903** | **-397,050** | **42** | **32** | **760,166** | **-157,104** | **-17** |
| **Cyfanswm** | **42,392,155** | **22,955,572** | **17,535,633** | **1,070,015** | **18,605,649** | **-4,349,923** | **81** | **44** | **28,899,958** | **-13,492,197** | **-32** |